



MENTER IAITH MAELOR

COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Wreccsam, ar Ebrill 21 2010

Presennol

Trefor Jones-Morris (Cadeirydd), Alun Emanuel, Gwenan Emanuel, Sion Aled Owen, Gwawr Cordiner, Nia Evans, Siân Edwards, Ellie Pritchard, Ann Hughes, David James, Gareth R Williams, R.D.Jones, Rosemary Ralphes, Judith Bartley, Huw Garmon (Siaradwr Gwadd.)

Ymddiheuriadau

Michelle Murphy, Frances Dawson, Carys Gwyn, Iddon Edwards, Haf Wyn Hughes, David Jones, Helen Pritchard Jones, John Pritchard, Nerys Jackson

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a bu iddo gyfeirio at y flwyddyn fel un gwahanol iawn wrth i'r Fenter brynu i mewn gwasanaethau Gwawr, Ellie a Rhian o Fenter Iaith Sir y Fflint. Gyda phenodiad newydd Siân Edwards fel Swyddog Datblygu a Nia Evans fel Swyddog Ieuenctid Datblygu'r Gymraeg yn Wreccsam yn ogystal â gwaith Michelle fel Swyddog Datblygu ac Ymchwil i'r Gymraeg dywedodd fod y Fenter yn wynebu cyfnod newydd yn ei hanes.

2. Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2008

Derbyniwyd bod y Cofnodion yn gywir.

3. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

4. Adroddiad y Rheolwr

Bu i'r rheolwr ddiolch am yr holl gefnogaeth y derbyniwyd hi a'r staff wrth iddynt ymgymryd â gwaith y Fenter. Disgrifiodd 2009 fel blwyddyn brysur dros ben gyda'r Fenter yn cyflawni llawer.

Roedd nawdd sylweddol wedi galluogi'r Fenter i gynnal llawer o weithgareddau yn cynnwys rhai cymunedol a gweithdai gyda phlant i'w dysgu am ddiwylliant a hanes Cymru. Blaenoriaethwyd 6-7 maes ble roedd angen gwaith penodol a oedd yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc, teuluoedd ifanc a dysgwyr. Pobl ifanc yw prif flaenoriaeth Bwrdd yr Iaith gyda'r Fenter yn cynnal trip i Alton Towers a gweithdai roc Radio Cymru i geisio targedu'r gynulleidfa bwysig yma.

Yn ystod y cyfnod nesaf dywedodd fod rhaid ceisio datblygu strategaeth masnach i gynorthwyo rhai pwyllgorau apêl yn enwedig gyda'r Eisteddfod yn 2011. Ac mae hefyd angen gwneud mwy o waith er mwyn cyd-weithio gyda phartneriaethau a mudiadau eraill.

Mae'r Fenter yn helpu'r apêl leol drwy hyrwyddo a marchnata o ran y pwyllgor. Unwaith y bydd bas data wedi ei sefydlu bydd yn bosib gyrru neges destun er mwyn cysylltu gyda phawb i dynnu eu sylw at ddigwyddiadau a newyddion y Fenter.

Trafodwyd y broblem o wahaniaethau rhwng 18 Pwyllgor Apêl Yr Eisteddfod Genedlaethol a chynigwyd y syniad o'r Fenter yn trefnu digwyddiad mawr ar gyfer yr holl bwyllgorau. Roedd Gwawr yn rhagweld y byddai hynny'n anodd trefnu gan fod y Fenter wedi penderfynu peidio torri ar unrhyw waith y pwyllgorau apêl ond y byddai'r Fenter yn hapus i gefnogi unrhyw

ddigwyddiadau. Mae'r Fenter wedi bod mewn cysylltiadau agos gyda Alwyn Roberts (Dirprwy drefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol) ac wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer diwrnod Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol ac wythnos Iaith ar Daith.

Er mwyn parhau gyda'r gwaith da sydd wedi ei wneud mae Siân Edwards wedi cael ei phenodi fel Swyddog Datblygu Cymunedol a bydd hi'n cynorthwyo gyda gwaith yn y gymuned er mwyn hyrwyddo a threfnu gweithgareddau. Diolchodd i Trefor am ei arweiniad pendant ac i Eleri am gymryd y cofnodion. Dywedodd ei bod yn gobeithio adeiladu ar waith y flwyddyn.

5. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2010

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf derbyniwyd incwm o£46,300 a gwariant o £52,5000, sydd yn cynnwys gwariant y cyfnod diwethaf ble roedd y gwariant yn llawer mwy na'r incwm, nawr mae'r gwariant mwy neu lai'r cyd-fynd. Yn y dyfodol mae angen mwy o bwyslais ar edrych ar y ffynonellau gwahanol o ariannu, yn enwedig gan fod llawer yn cwtogi i arbed arian yn yr amseroedd caled yma.

Diolchodd Trefor i David am ei holl waith manwl fel Trysorydd.

6. Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cynigwyd ail ethol aelodau'r Bwrdd Rheoli ac eiliwyd y penderfyniad hwn. Yn ddelfrydol mae angen rhywun o ardal Glyn Ceiriog i ddod yn aelod o'r Bwrdd.

7. Ethol Cadeirydd

Etholwyd Trefor unwaith eto i fod yn Gadeirydd

8. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod nad oedd ar yr Agenda.

Siaradwr Gwadd

Cafwyd anerchiad diddorol gan Huw Garmon wth iddo drafod ei yrfa ddisglair fel actor, gan ganolbwyntio ar y ffilm lwyddiannus, Hedd Wyn a'i brofiad o fynychu'r Oscars. Trafododd y dafodiaith amrywiol oedd gan Gymru wrth iddo symud o'i fan genedigol yng Ngogledd Cymru gyda'i deulu newydd i'r De. Dywedodd ei fod yn mwynhau ei waith fel darlithydd ym Mhrifysgol Glyndŵr gan ei fod y llwybr newydd iddo yn ei yrfa, er nid oedd yn siŵr am ba hyd y byddai yn y swydd honno.